RHIFYN
ISSUE
08
22.05.19

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

24.05.19 - Diwrnod Olaf yr Hanner Tymor
Finish for Half Term
27.05.19 - Wythnos Eisteddfod Yr Urdd
Week of the Urdd Eisteddfod
03.06.19 - Plant yn dychwelyd i'r ysgol
Children return to school
17.06.19 - Diwrnod HMS (dim ysgol i'r plant)
INSET Day (no school for children)
19.07.19 - Diwrnod olaf y flwyddyn
Last day of the year

DOSBARTHIADAU 2019-2020
2019 - 2020 CLASSES



Unwaith eto eleni, byddwn yn eich hysbysu o drefn y dosbarthiadau ar gyfer 2019-2020 pan fyddwn yn dosbarthu Adroddiadau Diwedd y Flwyddyn ar Orffennaf 12fed.
Fel sy'n digwydd weithiau, efallai bydd dosbarthiadau yn cael eu hollti i greu'r dosbarthiadau newydd ac efallai bydd staff yn symud oedran. Mae strwythur yr holl ddosbarthiadau yn dibynnu yn llwyr ar faint o blant Blwyddyn 6 sy'n ein gadael, y nifer o blant newydd sy'n ymuno â ni yn y Meithrin ac efallai mewn dosbarthiadau eraill hefyd a'r nifer ysgol gyfan. Mae hyn i gyd yn rheoli'r gyllideb a chymhareb disgyblion:athrawon.

Once again this year, we'll be able to let you know your children's new classes for 2019-2020 when we send out the End of Year Reports on July 12th.
As sometimes happens in school, some classes may be split to create the new class structures and some members of staff may move year group. Class structures are totally dependent on the number of Year 6 pupils leaving us, the number of new Nursery children and any others joining us across the school and the whole school pupil number which guides funding and pupil:staff ratios.

SYSTEMAU CYFATHREBU'R YSGOL
SCHOOL'S COMMUNICATION SYSTEMS

Wel, rydyn ni'n credu fod digon o ebyst, negeseuon testun a thwîts wedi mynd mas yn ddiweddar i hysbysu pawb am y system newydd sydd gennym o anfon negeseuon at bawb! Y gobaith yw y bydd pawb yn lawrlwytho'r App ac yn ymgyfarwyddo â fe yn ystod y gwyliau. Ar y dechrau, efallai bydd ambell i broblem fach ond cofiwch gysylltu trwy alwad ffôn os oes gennych gwestiwn neu broblem - ynglŷn â'r App wrth gwrs! ☺ Ymdrechwn i'ch helpu! Cofiwch ymuno â'r grwpiau perthnasol er mwyn derbyn pob neges fydd o ddiddordeb / ar eich cyfer chi. Gallwch wneud hyn trwy glicio ar lun y gloch:



Well, we think that there have been enough emails, text messages and tweets recently to let everyone know about our new messaging system! It is hoped that everyone will download the App and have a chance to become familiar with it during the Whitsun holiday. During the early stages, we may come across some small problems but remember to telephone us should you have a question or problem - App related of course! ☺ We'll try our best to help you! Remember to join the relevant groups to ensure that you receive every message which is of interest to you / meant for you. You can do this by clicking on the bell icon:



Cliciwch ar y logo perthnasol i gyrraedd yr App
Click on the relevant logo: to go to the App

CYSTADLEUAETH TENIS
TENNIS COMPETITION



Llongyfarchiadau mawr i'r 4 plentyn aeth i Benarth ar Fai 21ain i gymryd rhan mewn twrnamaint tenis wedi'i drefnu gan @TennisSquad Daeth y plant yn ail yn y gystadleuaeth parau cymysg - Llongyfarchiadau! Diolch yn fawr i Mrs Evans a Mrs Wheeler am eu cymorth!
Many congratulations to the group of children who travelled to Penarth on May 21st to take part in a tennis tournament organised by @TennisSquad. The children came second in the mixed doubles competition - Congratulations! Many thanks to Mrs Evans and Mrs Wheeler for their help!

EISTEDDFOD YR URDD 2019
URDD EISTEDDFOD 2019

Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu ar y maes wythnos nesaf. Gobeithio y bydd yr holl waith caled hyd yn hyn yn talu'r ffordd! Edrychwn ymlaen at rannu'r newyddion gyda chi ar ôl y gwyliau.
Good luck to all of our pupils who are competing on the maes next week. We hope that all the hard work up until now pays off! We look forward to sharing the news with you after the holidays.

Eisteddfod yr Urdd
Caerdydd a'r Fro
27/05 – 01/06/2019

LLUNIAU GRŴP
GROUP PHOTOS
07.06.19
(John Newman)